## HUW EDWARDS a bendithion a phoenau

# Dannedd dodi — heb sbrings!

FE GEWCH, weithiau, mai'r peth mwyaf diddorol mewn hen gylchgrawn yw'r hysbysebion, neu dyna fy mhrofiad i, beth bynnag. Gwelais yn *Y Nofelydd, a chydymaith y teulu* (cylchgrawn a gyhoeddwyd yn Llanerchymedd ym 1861) hysbyseb ar gyfer 'Dannedd Gosod yn Glynu eu hunain — heb Springs; India Rubber yn waelod'.

Gwaith y Meistri Gabriel oedd y dannedd nodedig hyn. Y syniad o orfod goddef, nid yn unig llond ceg o ddannedd dodi, ond sbringiau hefyd, a'm danfonodd ar drywydd deintyddol.

Mae'n gred lled gyffredin mai bwydydd modern meddal a melys sydd yn bennaf gyfrifol am bydredd dannedd ac mae'n siwr fod elfen o wir yn hynny. Ond nid yw'r broblem yn un newydd. Mae penglogau dynol o Oes yr Efydd yn cynnig digon o dystiolaeth fod pydredd dannedd yn eithaf cyffredin hyd yn oed yn y cyfnod cynnar hwnnw.

Byddai grit mewn bwyd amrwd yn debygol o achosi llawer o draul ar ddannedd ac yn caniatáu i feicrobau weithio'u ffordd i geudod y bywyn.

Wrth edrych ar bortreadau enwogion o'r ail a'r drydedd ganrif ar bymtheg gwelir mai peth digon eithriadol oedd llond ceg o ddannedd iach. Nid oedd neb wedi dyfeisio brws dannedd ac roedd natur y bwyd a fwyteid yn peri i dartar mor galed â sment ffurfio o gwmpas y dannedd gan niweidio'r deintgig ac, yn y diwedd, rhyddhau'r dannedd eu hunain.

Roedd y ddannoedd yn brofiad cyffredin ymhlith pobl o bob dosbarth cymdeithasol. Go brin fod haneswyr wedi rhoi'r sylw haeddiannol i'r ffaith fod Louis XIV a'r Frenhines Elisabeth I wedi gorfod gwneud penderfyniadau o bwys droeon er yn dioddef ddannoedd arteithiol ar y pryd!

* * * *

MAE'N DEBYG mai'r Etrysciaid oedd y cyntaf i ddyfeisio dannedd dodi (a hynny yn Tuscany tua 700 C.C.). Gosodent goler lydan o aur o gwmpas nifer o ddannedd iach ac roedd honno'n ddigon cryf i ddal un neu fwy o ddannedd artiffisial a fyddai'n llanw bwlch. Defnyddid pin i gadw'r dant artiffisial yn ei le ac roedd y cyfan yn ddigon cadarn i'r defnyddiwr fedru cnoi ei fwyd.

Er bod y Rhufeiniaid wedi dysgu rhywfaint gan yr Etrysciaid, ni welwyd crefftwaith tebyg i hyn tan y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Erbyn y bymthegfed ganrif roedd tynwyr dannedd yn mynd o gwmpas y ffeiriau ac yn addo tynnu dannedd yn ddi-boen. Defnyddient gerddoriaeth stwrllyd i foddi bloeddiadau'r cwsmeriaid.

Hefyd, arferent lanhau dannedd, gan ddefnyddio asid nitrig at y pwrpas. Roedd hwn yn ffordd effeithiol o gael y dannedd yn wyn, ond roedd, hefyd, yn dinistrio'r enamel ac, yn y diwedd, yn difetha'r dannedd yn gyfan gwbl.

Mae Samuel Pepys yn cyfeirio at yr arferiad hwn yn ei ddyddiadur (Mawrth 11, 1661): '. . . *my wife came home, and among other things she hath got her teeth new done by La Roche, and are indeed now pretty handsome, and I was much pleased with it.*'

* * * *

CREDIR mai Peter de la Roche oedd y cyntaf i wneud enw iddo'i hunan fel deintydd yn Llundain. Erbyn y cyfnod hwn roedd ef a'i debyg wedi sylweddoli mai'r unig ffordd i wneud arian mawr oedd trwy wneud dannedd dodi ar gyfer y cyfoethogion.

Aeth ati i gerfio darn o ifori (o'r hipopotamus neu'r walrys, fel arfer) ar ffurf rhes o ddannedd ac yna'i glynu'n sownd wrth y dannedd naturiol ar y naill ochr a'r llall, gan ddefnyddio metel neu sidan.

Gan na allai'r defnyddwyr dynnu'r dannedd allan eu hunain er mwyn eu glanhau, ni fyddent byth bron yn cael eu tynnu o'r geg. Byddai hyn yn peri trafferthion o bob math. Mae Shakespeare yn cyfeirio'n aml at anadl drewllyd ac, yn sicr, dyna un peth a fyddai'n digwydd yn gyflym pan fyddai rhywun yn gwisgo dannedd dodi o ifori — heblaw am y ffaith bod dannedd o'r fath yn troi'n ddu yn gyflym.

Oherwydd bod anadl drewllyd mor gyffredin defnyddid gwyntyll i arbed y defnyddiwr rhag y drygsawr, a hefyd, i guddio dannedd pwdr. Byddai llawer yn archebu dannedd dodi trwy'r post.

Nid oedd gobaith iddynt ffitio ac, yn sicr, ni ellid eu defnyddio i gnoi bwyd. Mae'n siwr bod pob ymgais i'w gwisgo yn brofiad poenus iawn, fel mae ambell lythyr at y gwneuthurwyr yn dangos.

* * * *

NID OEDD dannedd ifori'n foddhaol o gwbl ond gellid cael gwell set trwy ddefnyddio dannedd dynol. Roedd set o'r fath yn costio o leiaf bedair gwaith cymaint â'r rhai ifori.

Fel arfer ceid y dannedd hyn ym meysydd y gad ac mewn mynwentydd. Yn aml, hefyd, byddai'r tlodion yn barod i aberthu rhai o'u dannedd am ychydig arian. Cesglid y dannedd hyn gan gymeriadau a elwid yn 'atgyfodwyr' (*resurrectionists*).

Cafwyd helfa wych ar ôl brwydr Waterloo, cymaint felly, yn wir, nes i'r dannedd dodi yma gael eu henwi, yn y man, yn 'ddannedd Waterloo'.

Mae'n rhaid fod cannoedd o bobl wedi gwisgo dannedd â ddygwyd yn ddiseremoni o gyrff milwyr ieuainc heb fod ganddynt y syniad lleiaf o ble y daethant. Parhaodd yr arfer tan hanner ola'r ganrif ddiwethaf.

Sylwyd yn y *Pall Mall Gazette*, ym 1865, nad oedd rhai deintyddion yn Llundain yn trafferthu gwneud dannedd artiffisial. Roeddynt yn dal i ddefnyddio dannedd naturiol a gasglwyd ar feysydd y gad yn Rhyfel Cartre'r America. Yno, byddai tynwyr dannedd yn dilyn y byddinoedd ac yn danfon llond baril ohonynt ar y tro i Loegr.

Mae'n ddigon tebyg fod dannedd o'r fath weithiau'n cario haint i geg y defnyddiwr.

* * * *

DATBLYGWYD y dechneg o gysylltu'r set uchaf wrth y set isaf, gan ddefnyddio sbringiau, ym Mharis yn y ddeunawfed ganrif gan Pierre Fauchard (1678-1761). Yn wahanol i ddeintyddion eraill, a fyddai'n cadw unrhyw ddatblygiad neu ddyfais newydd yn hollol gyfrinachol, cyhoeddodd Fauchard lyfr, *Le Chirurgian Dentiste*, ym 1728, a oedd yn cynnwys manylion ar sut i wneud dannedd dodi.

Ar ôl eu gosod yn y geg, byddai'r sbring cryf yn cadw'r dannedd yn eu lle — yn wir roedd angen peth ymdrech i gadw'r geg ar gau. Yn anffodus dangosent duedd amlwg i symud o'r naill ochr i'r llall wrth fwyta. Gan fod hyn yn ddigwyddiad eithafol o boenus byddai mwyafrif y defnyddwyr yn eu tynnu allan cyn pob pryd bwyd.

Eu prif amcan oedd gwneud y perchennog yn fwy golygus a rhoi cymorth iddo lefaru'n fwy eglur yn hytrach na'i alluogi i gnoi, ac felly i dreulio'i fwyd yn well.

Un gŵr amlwg a ddioddefodd trwy'i oes oherwydd triniaeth ddeintyddol ddiffygiol y ddeunawfed ganrif oedd George Washington.

Dechreuodd ei ddannedd bydru pan nad oedd ond dwy ar hugain oed. Erbyn iddo gyrraedd deugain nid oedd ganddo ond un dant ar ôl a bu'n rhaid iddo oddef cyfres o setiau o ddannedd dodi nad oeddynt yn ffitio o gwbl.

Yn wahanol i'r mwyafrif, ni fyddai Washington byth yn tynnu'i ddannedd allan cyn bwyd, er bod hynny'n golygu iddo ddioddef poen enbyd wrth fwyta.

Pan fyddai gartref gyda'r teulu arferai fwyta treip wedi'i biclo. Wrth archebu cyflenwad o Lundain un tro, esboniodd: '*Dental infirmity impels me caring for this necessary item in our domestic commissariat*'.

Aeth diffyg traul — a diffyg amynedd — yn broblem gynyddol iddo ac aeth yn drwm ei glyw, o bosibl oherwydd symudiadau annaturiol ei ên. Medrai oddef poen ond ni allai dderbyn y ffordd roedd y dannedd wedi newid siâp ei wyneb a'r ffaith nad oedd mwyach yn medru llefaru'n eglur.

Roedd yn fwyfwy amharod i siarad yn gyhoeddus. Gwelir yr effaith a gafodd dannedd dodi amrwd ar wyneb Washington yn y llun ohono sy'n ymddangos ar stampiau ac arian papur America.

* * * *

DULL ARALL o geisio datrys problem dannedd blaen pwdr oedd y weithred farbaraidd o drawsblannu. Yn union ar ôl tynnu dant pwdr, tynnwyd dant iach o geg rhyw wirfoddolwr tlawd a'i osod yn y soced wag.

Gwnaed hyn gyntaf gan lawfeddyg Arabaidd, Abulcasis o Cordoba, ganrifoedd yn ôl, a chafwyd ambell gyfeiriad, digon beirniadol yn aml, at y driniaeth o bryd i'w gilydd ar ôl hynny. Poblogeiddiwyd y driniaeth yn chwarter ola'r ddeunawfed ganrif gan y llawfeddyg enwog John Hunter.

Roedd meddygon braidd yn ddirmygus o ddeintyddion ac ni fyddent byth yn cydweithio â hwy. Fel mae'n digwydd aeth John Hunter trwy gyfnod pan oedd hi yn ddigon cyfyng arno (rhwng 1763 a 1771) ac roedd yn ddigon balch o'r cyfle i gydweithio gyda dau ddeintydd o'r enw Spence (tad a mab).

Ffrwyth y cydweithio hwn oedd y llyfr gwyddonol cyntaf yn Saesneg ar ddeintyddiaeth, ei *Natural History of the Teeth*. Ynddo ceir disgrifiad o'r driniaeth ac mae'n cynghori'r llawfeddyg i sicrhau cyn dechrau fod sawl gwirfoddolwr yn bresennol.

Os na fyddai'r dant cyntaf yn ffitio, dylid tynnu un o ddannedd gwirfoddolwr arall a bwrw ymlaen fel hyn nes ceid un a oedd yn ffitio'n weddol. Wedyn rhaid oedd clymu'r dant wrth y